YSGOL BRYNREFAIL

LLEIHAU, AILDDEFNYDDIO, AILGYLCHU

Ailgylchu yw'r term am ail-ddefnyddio deunydd crai pethau sy'n cael eu taflu i ffwrdd fel gwastraff. Caiff y deunydd ei ailbrosesu er mwyn creu deunydd newydd er mwyn atal gwastraff deunydd defnyddiol, lleihau'r angen am ddeunydd crai newydd, lleihau defnydd egni, lleihau llygredd yn yr awyr a geir o losgi gwastraff, a lleihau llygred dŵr sy'n dod o domenni gwastraff. Mae hefyd yn lleihau'r gost o gymharu â ffurfiau "confensiynol" o waredu â gwastraff, ac yn creu llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr i gymharu â phrosesu deunydd crai newydd. Mae ailgylchu yn rhan allweddol o'r strategaeth gyfoes o reoli gwastraff. Ym Mrynrefail yr ydym yn ffodus i gael criw o hogiau sy'n cadw llygad barcud ar ein polisi ail gylchu ac yn gwneud eu gorau i'w wireddu.

Mae Gerallt Morris, Lewies Burns a Matthew Hughes yn rhan o griw sydd yn sicrhau ail gylchu ar bob cyfle ac yr ydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu gwaith trwyadl a chyson.

Yn ogystal â'u gwaith y mae Banc Dillad Antur Waunfawr ar safle'r Ysgol yn derbyn dillad, tyweli, cynfasau, blancedi, llenni ac esgidiau.